# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwasanaethau Byw â Chymorth a Chymorth Cymunedol Mirus – Rhanbarth Powys**

**Mirus Cymru**
**Uned 5 Cleeve House**
**Cilgant Lambourne**
**Caerdydd**
**CF14 5GP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Gwasanaethau Byw â Chymorth a Chymorth Cymunedol Mirus - Rhanbarth Powys

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Mirus Cymru |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Awst 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Gwasanaethau Byw â Chymorth a Cymorth Cymunedol Mirus (Rhanbarth Powys) yn darparu lefel ragorol o ofal a chymorth i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r bobl yn cael cymorth a gofal gan dîm ymroddedig o weithwyr gofal. Darperir gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan hybu dewis ac annibyniaeth. Caiff y cynlluniau personol eu llunio a'u hadolygu drwy ymgynghori â'r bobl a'u cynrychiolwyr. Caiff risgiau eu hasesu a'u rheoli'n drylwyr er mwyn galluogi'r bobl i gael profiad o gymryd risgiau cadarnhaol. Gellir trefnu i'r bobl weld gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fo angen, a chânt eu cefnogi i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau gartref ac yn eu cymunedau lleol.

Mae trefniadau llywodraethu a systemau sicrhau ansawdd da ar waith er mwyn helpu i ysgogi gwelliannau. Mae adolygiadau rheolaidd o ansawdd y gofal yn asesu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac yn cyfarfod yn rheolaidd â'r bobl a'r staff er mwyn casglu adborth. Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n unol â'r rheoliadau ac maent yn cael yr hyfforddiant perthnasol. Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau gweithio i'r gwasanaeth ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi yn eu rolau.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd y bobl wrthym fod ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r gweithwyr gofal. Gwelsom y gweithwyr gofal yn rhyngweithio'n dda â'r bobl, gan eu cynnwys mewn sgyrsiau ystyriol cynnes a chyfeillgar. Caiff cynlluniau gofal ac asesiadau risg manwl eu llunio, gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n galluogi'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Caiff ymyriadau arbenigol eu trefnu lle bo angen, ac mae cynlluniau ar waith sy'n nodi'r ffyrdd gorau a mwyaf effeithiol o gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau.

Mae'r bobl yn byw eu bywydau eu hunain a chânt eu cefnogi i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt, ac y maent yn eu mwynhau. Mae'r cynlluniau personol yn tynnu sylw at hoff bethau, cas bethau, nodau a dyheadau'r bobl. Mae'r asesiadau risg yn tynnu sylw at y manteision sy'n gysylltiedig â chymryd risgiau, gan alluogi'r bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis ond gan hybu diogelwch ar yr un pryd. Mae'r gwasanaeth yn cynnal digwyddiadau rheolaidd lle gall y bobl gwrdd â'u ffrindiau. Caiff y bobl eu hannog i ddefnyddio cyfleusterau cymunedol ac i ddod yn aelodau gweithgar o'r gymuned.

Mae mesurau ar waith sy'n helpu i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel a'u hyfforddi i ddiwallu anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda, ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol sy'n llawn ymddiriedaeth â nhw. Mae polisi diogelu ar waith ac mae'r gweithwyr gofal yn gyfarwydd â'r broses ar gyfer codi pryderon. Mae'r gweithwyr gofal yn cael yr hyfforddiant perthnasol ac mae cynlluniau gofal ac asesiadau risg cadarn ar gael i'w harwain.

Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fydd angen cyngor neu gymorth. Darperir hyfforddiant arbenigol i'r gweithwyr gofal i'w helpu i ddeall anghenion iechyd y bobl. Mae prosesau ar waith i reoli meddyginiaeth y bobl ac i sicrhau eu bod yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd. Caiff y bobl eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hybu llesiant corfforol a chânt gymorth hefyd o ran eu hiechyd emosiynol a'u hiechyd meddwl.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae gwybodaeth eang ar gael i'r gweithwyr gofal am y bobl y maent yn gofalu amdanynt. Mae hyn yn helpu'r gweithwyr gofal i ddeall anghenion y bobl a pha ddulliau i'w defnyddio wrth ddarparu gofal a chymorth. Mae gan y bobl a'u cynrychiolwyr gydberthnasau da â'r gweithwyr gofal. Gwelsom y gweithwyr gofal yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r bobl yn ystod ein harolygiad. Roedd yr adborth a gawsom yn cefnogi ein harsylwadau. Dywedodd un unigolyn wrthym *“I get on with the staff, they’re all good”.* Dywedodd perthynas unigolyn sy'n derbyn gwasanaeth, *“I think the service has a good person-centred approach. They have been very successful in being flexible and open minded, the staff are amazing”.*

Caiff cryfderau, hoff bethau a dewisiadau'r bobl eu hybu. Gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi i wneud y pethau y maent am eu gwneud. Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig a welsom yn dangos bod y bobl yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau y maent yn eu mwynhau. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau hamdden, gwirfoddoli, cyfleoedd cyflogaeth â chymorth, cyfleoedd addysgol a sgiliau byw bob dydd. Caiff y bobl eu monitro wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau er mwyn mesur unrhyw gynnydd neu ddirywiad, ac i nodi'r lefelau cymorth sydd eu hangen. Caiff y bobl eu hannog i gymryd rhan mewn bywyd cymunedol a'u cefnogi i gynnal cydberthnasau â theulu a ffrindiau. Gwelsom fod y gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau a grwpiau cymunedol tebyg eraill er mwyn ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae'r cynlluniau personol yn nodi anghenion gofal a chymorth y bobl, yn ogystal â dulliau rhagweithiol o ddarparu gofal a nodi risgiau i iechyd a diogelwch y bobl. Caiff y cynlluniau personol eu llunio i safon uchel iawn drwy ymgynghori â'r bobl, eu cynrychiolwyr a, lle bo angen, y tîm cymorth amlddisgyblaethol. Mae cynlluniau arbenigol ar waith i arwain y gweithwyr gofal wrth reoli ymddygiadau yr ystyrir eu bod yn heriol, a cheir cynlluniau cyfathrebu unigol i sicrhau bod y cyfathrebu rhwng y bobl a'r gweithwyr gofal yn gydlynus. Cynhelir adolygiadau yn unol â'r rheoliadau ac maent yn sicrhau bod y bobl yn cael y lefel ofynnol o ofal a chymorth a'u bod yn cyflawni eu canlyniadau personol. Caiff cyflawniadau'r bobl eu dathlu a'u cofnodi'n ysgrifenedig yn eu ‘straeon cadarnhaol’.

Caiff y bobl eu cefnogi i sicrhau eu bod mor iach â phosibl. Mae gwybodaeth fanwl am anghenion iechyd y bobl ar gael i'r gweithwyr gofal ac maent yn cael hyfforddiant arbenigol pan fo angen. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn gallu nodi unrhyw newidiadau, gan roi gwybod amdanynt i'r gweithiwr proffesiynol perthnasol er mwyn cael cyngor neu gymorth. Gwelsom dystiolaeth wedi'i dogfennu fod y bobl yn cael cymorth i fynd i apwyntiadau rheolaidd. Mae ‘Proffiliau Iechyd’ wedi'u cynnwys yn ffeiliau'r bobl. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi gwybodaeth am anghenion iechyd y bobl a sut y dylid eu cefnogi wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Caiff y bobl eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd. Mae polisi meddyginiaeth sy'n gyson â chanllawiau arfer gorau, ac mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant ar feddyginiaeth. Mae archwiliadau meddyginiaeth rheolaidd yn sicrhau y caiff unrhyw wallau meddyginiaeth eu nodi a'u datrys.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y bobl eu cefnogi gan ddarparwr sy'n dangos ymrwymiad i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel. Mae trefniadau llywodraethu a systemau sicrhau ansawdd cadarn ar waith sy'n helpu'r gwasanaeth i redeg yn ddidrafferth. Caiff adolygiad o ansawdd y gofal ei gynnal bob chwe mis. Mae'r adolygiad hwn yn helpu'r gwasanaeth i hunanwerthuso a nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Yn ogystal, gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y gwasanaeth yn ymgynghori'n rheolaidd â'r bobl a'r staff am y gwasanaethau a ddarperir a'i fod yn cwblhau archwiliadau rheolaidd er mwyn helpu i nodi unrhyw ddiffygion a gweithredu arnynt. Ymddengys fod yr Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth a ddarperir yn dda a'i fod yn cyfarfod yn rheolaidd ag uwch-aelodau eraill o'r staff er mwyn ystyried y gwasanaeth ar lefel strategol, gan drafod meysydd fel recriwtio a hyfforddi staff.

Mae system gadarn ar waith i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer recriwtio, sefydlu a hyfforddi'r gweithwyr gofal yn ddiogel ac yn effeithiol. Gwelsom fod y gwasanaeth yn cwblhau'r holl wiriadau cyn cyflogi priodol. Er enghraifft, geirdaon, hanes cyflogaeth a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Rhaid i bob cyflogai newydd gwblhau rhaglen sefydlu strwythuredig lle caiff ei gymhwysedd ei fonitro'n agos. Mae rhaglen barhaus o hyfforddiant a chyfleoedd datblygu ar gael i'r gweithwyr gofal, a chaiff hyfforddiant craidd a hyfforddiant arbenigol eu darparu. Dywedodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod safon yr hyfforddiant a ddarperir yn dda, gan roi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da.

Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Gwelsom fod gan y gwasanaeth raglen cymorth i gyflogeion. Mae'r rhaglen ar gael i'r staff os byddant yn cael problemau yn y gwaith neu yn eu bywydau preifat. Cawsom adborth cadarnhaol gan y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw am y tîm rheoli. Dywedodd un gweithiwr gofal, *“There is reliable, excellent communication between staff and management they are very approachable”.* Dywedodd gweithiwr gofal arall, *“The manager is really lovely and will deal with issues very quickly, with a compassionate touch which is appreciated”.* Gwnaethom edrych ar y cofnodion goruchwylio a gwelsom nad yw'r gweithwyr gofal bob amser yn cael y lefelau a argymhellir o gymorth ffurfiol. Gwnaethom drafod hyn â'r tîm rheoli a roddodd sicrwydd i ni y byddai'n ymdrin â'r mater.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i hybu arferion diogel. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o'r dogfennau hyn, gan gynnwys y polisi diogelu, y polisi meddyginiaeth a'r polisi cwyno. Gwelsom eu bod yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol a'r canllawiau arferion gorau cyfredol, eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru pan fo angen. Gwnaethom edrych hefyd ar wybodaeth ysgrifenedig eraill fel y datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Mae'r ddwy ddogfen hyn yn rhoi disgrifiad cywir o'r gwasanaeth ac yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/09/2024